

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

La Belle Skin & Beauty, Cwmbrân

Dyddiad yr arolygiad: 06 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 07 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83577-223-2

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	15
4.	Y camau nesaf .....	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	19
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o La Belle Skin & Beauty, 47 Llandowlais Street, Cwmbrân, NP44 7HE ar 6 Medi 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod La Belle Skin & Beauty yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol. Roedd yr ystafell drin yn daclus ac yn sicrhau y caiff preifatrwydd ac urddas y cleifion eu cynnal bob amser.

Roedd cleifion yn cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion rhai o'r cleifion yn dangos bod y cyngor hwn wedi'i roi.

Ar wahân i adolygiadau ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, nid oedd unrhyw drefniadau ar gyfer casglu, adolygu na dadansoddi adborth gan gleifion dienw.

Nid oedd y cyfleusterau'n hygyrch i gleifion â gofynion symudedd.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cadw cofnodion gofal iechyd cynhwysfawr ar gyfer pob claf.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Adolygu a diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod ar gael yn hawdd i gleifion yn y clinig
- Rhoi cofrestr ar waith i gofnodi pob achos o ddarparu triniaethau Goleuni Pwls Dwys, sy'n benodol i'r peiriant IPL
- Darparu canllawiau ôl-ofal ysgrifenedig i gleifion fel arfer safonol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Gweithredwr brwdfrydig, cyfeillgar a phrofiadol.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau a hyfforddiant addas ar waith ar gyfer diogelu oedolion sy'n agored i niwed, ac roedd hebryngwyr yn cael caniatâd i fynychu pan fo angen.

Nodwyd gennym fod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a bod y larymau tân yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n fisol. Nodwyd a chofnodwyd risgiau tân. Fodd bynnag, roedd angen asesiad risg tân mwy effeithiol.

Roedd y peiriant IPL wedi cael ei wasanaethu gan y gwneuthurwr yn ddiweddar, roedd gan y clinig Reolau Lleol cyfredol ac roedd contract Cynghorydd Diogelu Laserau cyfredol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd protocolau triniaeth feddygol cyfredol ar gael yn hawdd.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Y rheolwr cofrestredig i gwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol
- Diweddarau'r Polisi Atal a Rheoli Heintiau i gynnwys mwy o fanylder
- Y gwasanaeth i ddechrau defnyddio amserlenni glanhau
- Mae angen protocolau meddygol cyfredol ac mae angen i'r gweithredwr IPL eu darllen a'u deall.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Trefnu, cynnal a chofnodi ymarferion tân
- Cofnodi gwiriadau peiriant IPL dyddiol
- Newid darn llaw'r peiriant IPL sydd wedi'i ddifrodi
- Y gweithredwr i gwblhau hyfforddiant sy'n benodol i'r peiriant IPL a ddefnyddir
- Y clinig i roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer gwerthuso a gwella'n barhaus fel y nodir yn y rheoliadau.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Mae La Belle Skin & Beauty yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr peiriant IPL awdurdodedig. Nid yw'r gwasanaeth yn cyflogi unrhyw weithwyr eraill.

Er bod y rheolwr cofrestredig yn brofiadol ac yn frwdfrydig am y gwaith ac yn ymgysylltu'n gyfeillgar â'r cleifion, nid oedd yn dangos dealltwriaeth dda o'r gofynion llywodraethu, yn enwedig ynghylch y rheoliadau a phwysigrwydd cadw cofnodion cynhwysfawr.

Roedd gweithdrefn gwyno yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Fodd bynnag, roedd angen mwy o fanylder ym mhob un o'r polisiau.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Paratoi a rhoi polisiau a gweithdrefnau ar waith yn unol â'r rheoliadau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y clinig i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o chwe holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*"Darparwyd y gwasanaeth mwyaf proffesiynol."*

#### Urddas a pharch

Gwelsom fod gan La Belle Skin & Beauty un ystafell drin, wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd y grisiau'n gul ac yn serth, ac yn debygol o fod yn her sylweddol i gleifion â phroblemau symudedd. Gwelsom fod bleinds wedi'u gosod yn yr ystafell a bod modd cloi'r drws er mwyn i gleifion newid yn breifat. Darparwyd tywelion i gleifion eu defnyddio drwy gydol eu triniaethau er mwyn diogelu eu hurddas.

Nid oedd y gwasanaeth yn cynnig hebryngwyr, ond roeddent yn cael eu caniatáu ar gais.

#### Cyfathrebu'n effeithiol

Darparodd y rheolwr cofrestredig gopïau caled o ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y clinig. Roedd y Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac, felly, roedd angen ei adolygu. Yn benodol, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o'r adborth gan gleifion, nid oedd unrhyw fanylion cyswllt ar gyfer swyddfa'r awdurdod cofrestru, na manylion am sut y gellir cael gafael ar adroddiad diweddaraf AGIC. At hynny, nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys telerau ac amodau mewn perthynas â'r gwasanaethau i'w darparu, gan gynnwys canllawiau clir ar dalu am driniaethau. Fodd bynnag, roedd rhestr prisiau ar wahân wedi'i hargraffu ac ar gael yn y dderbynfa a'r ystafell drin, y gellid cyfeirio ati yn y canllaw.

Darparwyd copi amgen o'r canllaw i gleifion a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Fodd bynnag, roedd y manylion hyn wedi'u dyddio ac nid oeddent yn ddilys mwyach.



**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod ar gael yn hawdd i gleifion yn y clinig.**

Nid oedd unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg yn y clinig, ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyfieithu pe bai eu hangen. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd unrhyw glaf wedi gofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg hyd yma.

**Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried y ffordd orau y gallai ddiwallu anghenion cleifion a all fod eisiau cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.**

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Gwnaethom ofyn am gael gweld y gofrestr o driniaethau IPL fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd cofrestr o'r fath ar waith am fod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yng nghofnodion unigol cleifion.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o ddarparu triniaethau IPL, sy'n benodol i'r peiriant, yn hytrach na bod hyn yn cael ei gofnodi ar wahân yn ffeiliau unigol cleifion.**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o bum cofnod claf. Roedd nodiadau cleifion unigol ar gael a oedd yn cofnodi eu hanes meddygol blaenorol, cytundeb prawf croen a manylion y driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o nifer y dosau a roddwyd gyda'r peiriant IPL, ac nid oedd unrhyw wybodaeth o gwbl am osodiadau'r peiriant IPL yn un o'r cofnodion.

Cafwyd llofnod yn ystod pob triniaeth, ond nid oedd yn glir a oedd y llofnod hwn yn ymwneud â chydysyniad y claf, neu â newidiadau i gyflwr meddygol y claf. Nodwyd y byddai angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer unrhyw gwestiwn yn ymwneud â newidiadau i gyflwr meddygol, yn hytrach na llofnod yn unig. Roeddem o'r farn nad oedd cofnodion y cleifion yn ddigon manwl a bod angen eu gwella.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

### **Cynllunio a darparu gofal**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl am eu triniaeth yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus. Dywedwyd wrthym y byddai canllawiau ôl-ofal yn cael eu rhoi ar lafar, ac y byddai canllawiau ysgrifenedig yn cael eu darparu ar

gais. Ni welsom unrhyw gofnod o hyn yng nghofnodion y cleifion, ond dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y nodiadau canllaw yn ffeiliau'r cleifion yn cadarnhau bod y claf wedi cael y wybodaeth.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddarparu canllawiau ôl-ofal ysgrifenedig i gleifion fel arfer safonol.**

#### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Cawsom ein sicrhau bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchoddedig ai peidio. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu a'u bod yn ceisio trefnu apwyntiadau ar ddiwrnodau tawelach er mwyn atal cleifion rhag croesi llwybrau, os oes angen. Mae hyn yn sicrhau preifatrwydd y claf wrth iddo gyrraedd a gadael.

#### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei gasglu gan gleifion ar lafar, drwy adolygiadau ar Google, a drwy'r system trefnu apwyntiadau ar-lein, a bod yr adborth hwn yn cael ei ddadansoddi er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn defnyddio blwch adborth adeg y Nadolig gan mai dyma'r adeg brysuraf.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig bob amser ddarparu ffurflenni adborth dienw yn yr ystafell drin a/neu'r dderbynfa.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y gwaith gwefru ar y safle wedi cael ei arolygu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd sticeri Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) i'w gweld ar bob dyfais berthnasol yn yr ystafell drin. Fodd bynnag, nid oedd y dyfeisiau trydanol yn y gegin nac yn y salon ar y llawr gwaelod wedi cael eu profi. Yn bwysig, roedd yr ystafelloedd hyn wedi'u lleoli ar hyd y llwybr dianc rhag tân dynodedig, ac roeddem o'r farn bod hyn yn peri risg amlwg i ddiogelwch cleifion. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig drefnu i brawf PAT gael ei gynnal ar bob dyfais berthnasol. Cawsom gadarnhad bod y profion PAT wedi cael eu cynnal y diwrnod canlynol.

Gwelsom fod rhestr o beryglon tân posibl wedi cael ei llunio. Fodd bynnag, nid oedd y peryglon hyn wedi cael eu hystyried na'u lliniaru'n briodol i lunio asesiad risg tân effeithiol. Ni chawsom sicrwydd bod camau priodol wedi cael eu cymryd i amddiffyn y cleifion rhag peryglon tân posibl. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig drefnu asesiad risg tân cyfredol. Cawsom gadarnhad bod asesiad risg tân wedi cael ei gwblhau y diwrnod canlynol.

Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer gwasanaethu'r diffoddwyr tân, ac y byddai'r archwiliad nesaf yn cael ei gynnal yn 2024. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y clinig, na'r cyd-denantiaid, yn cynnal ymarferion tân ar y safle.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer trefnu, cynnal a chofnodi ymarferion tân, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr y safle yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai tân.**

Dangoswyd cofnodlyfr i ni a oedd yn dangos bod y larymau tân yn cael eu gwirio bob mis. Fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gwblhau'r hyfforddiant hwn ar frys er mwyn meithrin gwybodaeth addas am atal tân. Cawsom gadarnhad bod yr hyfforddiant ar ddiogelwch tân wedi cael ei gwblhau ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael, a bod yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf 'gryn amser yn ôl.' Gan nad oedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar, gwnaethom nodi ei bod yn ofynnol i'r rheolwr cofrestredig gwblhau cwrs diweddar cymorth cyntaf.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Eglurodd y rheolwr cofrestredig brosesau glanhau clinigol addas ar ei gyfer ei hun, y cyfarpar a'r ystafell drin. Fodd bynnag, nododd ein harsylwadau o'r clinig fod rhoi mwy o sylw i'r amgylchedd. Nodwyd llwch a mân falurion, yn enwedig ar y llawr ger y brestyn simnai yn yr ystafell drin, ac roedd sbectol amddiffynnol wedi'i halogi ag olion bysedd a defnynnau hylif anhysbys. Am yr un rheswm, tynnwyd rÿg o'r ystafell drin yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau ar waith yn y clinig. Fodd bynnag, roedd y polisi hwn yn fyr iawn ac nid oedd yn cynnwys digon o fanylder i ymdrin â materion megis disgwyladau o ran hylendid dwylo, trin gwastraff clinigol yn ddiogel, ardaloedd i'w glanhau, amllder, a hyfforddiant. Yn ogystal, nid oedd amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio i ddangos bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni yn ôl yr angen.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Roedd contract gwaredu gwastraff addas ar waith i gael gwared ar wastraff clinigol.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd. Dangosodd ein sgysiau â'r rheolwr cofrestredig a'r adolygiad o gofnodion cleifion fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r amod hwn.

Dim ond yn y salon ar y llawr gwaelod y caniatwyd plant tra bod triniaeth yn cael ei chynnal i fyny'r grisiau, ar yr amod bod oedolyn ar gael i'w goruchwyllo. Fel arall, byddai'n rhaid gwrthod y driniaeth ac aildrefnu'r apwyntiad.

Gwelsom gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed gan fod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2022. Fodd bynnag, gan fod y gwasanaeth yn caniatáu i blant ddod i'r safle, gwnaethom awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu plant. Cawsom gadarnhad bod hyfforddiant ar ddiogelwch tân wedi cael ei gwblhau ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod oedolion agored i niwed yn cael eu hasesu ar y cam ymgynghori, a phe bai unrhyw bryderon, y byddai'r driniaeth yn cael ei hoedi hyd

nes y byddai llythyr gan feddyg y claf wedi dod i law, ac y byddai'n rhaid i oedolyn cyfrifol fod yn bresennol gyda'r claf

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod y peiriant IPL yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriant IPL, gan gynnwys profion diagnosteg. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi cael eu cofnodi.

### **Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y gwiriadau dyddiol ar y peiriant IPL eu cofnodi, a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.**

Nodwyd gennym fod gwiriadau calibradu a gwasanaethu blynyddol y peiriant IPL yn gyfredol, ond gwelsom fod y darn llaw wedi cael ei dapio at ei gilydd ac nad oedd hyn wedi cael ei gofnodi yn y ddogfennaeth gwasanaethu. Cawsom sicrwydd ar unwaith gan y peiriannydd gwasanaethu mai mesur ataliol oedd hyn ac na fyddai'n effeithio ar y gallu i ddefnyddio'r peiriant IPL yn ddiogel. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, gwelsom fod handlen y darn llaw yn ymddangos fel pe bae'n dod yn rhydd, a bod y tâp o bosibl yn ei ddal at ei gilydd.

### **Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig newid darn llaw'r peiriant IPL a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.**

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant IPL yn ddiogel wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant IPL ac roedd y rhain wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol. Fodd bynnag, y dyddiad adolygu a oedd wedi'i nodi arnynt oedd mis Awst 2022. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y gweithredwr IPL yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai argyfwng.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr IPL. Gwelsom fod y rhain mewn cyflwr da ac yn gyson â'r gofynion yn y rheolau lleol.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos presenoldeb y peiriant IPL ac roedd bach caban a chlicied yn cael eu defnyddio i atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel pan nad yw'n cael ei ddefnyddio a bod yr allweddï'n cael eu cadw dan glo, ac mai dim ond y gweithredwr sy'n gwybod y PIN i gael gafael arnynt.

Gwelsom fod y gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol a chymhwyster City and Guilds ar gyfer gweithredu IPL a diogelwch. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant a oedd yn benodol i'r ddyfais.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n benodol i'r peiriant IPL a ddefnyddir a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.**

#### **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Nid oedd unrhyw systemau wedi'u dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r rheolwr cofrestredig geisio barn cleifion yn rheolaidd ffordd o lywio'r gofal, cynnal archwiliadau o gofnodion er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyson, ac asesu risgiau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

**Rydym yn argymhell y dylai'r clinig roi gweithdrefn ar waith ar gyfer sicrhau prosesau gwerthuso a gwella parhaus lle bo angen fel y nodir yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.**

#### **Rheoli cofnodion**

Gwelsom fod cofnodion papur cleifion yn cael eu cadw mewn ffeiliau blwch metel y gellir eu cloi. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi'u lleoli yn agos i fynedfa'r safle a gallent gael eu symud oddi yno yn hawdd ac, felly, nid oeddent yn ddiogel.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae La Belle Skin & Beauty yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr peiriant IPL awdurdodedig. Nid yw'r clinig yn cyflogi unrhyw weithwyr eraill.

Gwelsom fod tystysgrif cofrestru gyfredol gan AGIC ac atodlen gysylltiedig yn cynnwys amodau'r cofrestriad yn cael eu harddangos yn y clinig fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.

Er bod y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn wybodus am ei waith a thuag at y cleifion, nid oedd yn dangos dealltwriaeth lawn o'r gofynion llywodraethu, yn enwedig mewn perthynas â dogfennau polisi strwythuredig cadarn. Roedd diffyg cwmipas a manylder yn y ddogfen 'Polisiau a Gweithdrefnau' i ddarparu canllawiau effeithiol i ddefnyddwyr y clinig, sy'n groes i Reoliad 9 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn y clinig, a oedd wedi'i chrynhoi yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Roedd y weithdrefn hon yn nodi y byddai pob cwyn yn cael ei chydabod a'i chwblhau o fewn amserlen benodol. Dylai pob cwyn gael ei chofnodi mewn cofnod cwynion, ond gwelsom nad oedd yr un gŵyn wedi cael ei chofnodi. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gŵyn wedi dod i law hyd yma.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystysgrif gyfredol a chlir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw unig gyflogai'r clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu mewn perthynas â chyflogeion.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.



# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Roedd peryglon tân posibl wedi cael eu nodi, ond nid oedd y rhain wedi cael eu hystyried a'u lliniaru'n briodol er mwyn llunio asesiad risg tân effeithiol.</p>	<p>Ni chawsom sicrwydd bod camau priodol wedi cael eu cymryd i amddiffyn y cleifion rhag peryglon tân posibl.</p>	<p>Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig drefnu asesiad risg tân cyfredol.</p>	<p>Trefnwyd asesiad risg tân newydd yn ystod yr arolygiad a chafodd ei gwblhau y diwrnod canlynol.</p>
<p>Nid oedd profion PAT wedi cael eu cynnal ar y dyfeisiau trydanol yn y gegin nac yn y salon ar y llawr gwaelod.</p>	<p>Roedd yr ystafelloedd wedi'u lleoli ar hyd y llwybr dianc rhag tân dynodedig, ac roeddem o'r farn bod hyn yn peri risg amlwg i ddiogelwch cleifion pe bai tân.</p>	<p>Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig drefnu i brawf PAT gael ei gynnal ar bob dyfais berthnasol.</p>	<p>Trefnwyd profion PAT yn ystod yr arolygiad a chawsant eu cwblhau y diwrnod canlynol.</p>

<p>Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gwblhau'r hyfforddiant hwn ar frys er mwyn meithrin gwybodaeth addas am atal tân.</p>	<p>Gallai cleifion wynebu risg.</p>	<p>Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân.</p>	<p>Cwblhawyd yr hyfforddiant ar ddiwrnod yr arolygiad.</p>
---	-------------------------------------	--	--

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: La Belle Skin & Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 06 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ysgrifenedig i AGIC o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Caiff yr holl gofnodion gofynnol yng nghofnodion cleifion, gan gynnwys gwiriadau hanes meddygol parhaus a chydysniad cleifion, eu cwblhau'n llawn ac yn gywir, a'u llofnodi gan y claf a'r gweithredwr IPL i ddangos eu bod yn gywir.</li></ul>	Rheoliad 23(1a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae ffurflenni cleientiaid wedi cael eu diweddarau ac maent bellach yn dangos pob cwestiwn y mae'r cleient yn ei lofnodi i gadarnhau nad oes unrhyw newid meddygol, cydsyniad y claf i'r driniaeth, ei fod yn hapus i newidiadau gael eu gwneud i osodiadau'r driniaeth, a boddhad y cleient â'r driniaeth. Mae'r gweithredwyr laser hefyd yn llofnodi fesul triniaeth.	Rebekah Hennah	Ar waith ac yn mynd rhagddo

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ar unwaith i AGIC o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff cofnodion gofal iechyd cleifion eu cadw mewn lleoliad diogel ar y safle.</li> </ul>	Rheoliad 23(2)	Cedwir cofnodion gofal iechyd cleifion yn ddiogel ar y safle mewn cabinetau ffeilio y gellir eu cloi y tu hwnt i gyrraedd y cyhoedd. Dim ond Rebekah Hennah sy'n gallu cael gafael arnynt.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ysgrifenedig i AGIC o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd copi o'r protocol triniaeth feddygol diweddaraf ar gyfer y peiriant IPL ar gael yn y clinig bob amser.</li> <li>• Mae wedi darllen a deall y protocol triniaeth feddygol diweddaraf cyn darparu triniaethau pellach i gleifion.</li> </ul>	Rheoliad 45(1)	Mae gennyf brotocol triniaeth cyfredol gan Lynton ac mae ar gael yn y clinig bob amser. Caiff ei storio yn yr ystafell drin. Mae'r protocolau triniaeth cyfredol wedi'u darllen a'u deall yn llawn.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ysgrifenedig y bydd yn</p>	Rheoliad 20(1)(a)	Rwyf wedi cwblhau cwrs hyfforddiant Cymorth Cyntaf gyda High Speed Training. Tystysgrif ar gael	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau

<p>cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf cyn gynted â phosibl.</p>				
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Polisi rheoli heintiau diwygiedig er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.</li> </ul> <p>N.B. Argymhellir y dylai gynnwys mwy o fanylion, gan gynnwys hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau, hyfforddiant perthnasol a chyngor.</p>	<p>Rheoliad 9 (1)(n)</p>	<p>Mae pob polisi wedi cael ei ddiweddarau i ddangos pob polisi glanhau yn fanylach. Mae arwyddion golchi dwylo wedi cael eu gosod wrth ymyl y sinciau.</p>	<p>Rebekah Hennah</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sicrwydd ysgrifenedig o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio, yn nodi eitemau, ardaloedd,</li> </ul>	<p>Rheoliad 15(8)</p>	<p>Mae cofnodlyfr rheoli gwaith glanhau ar gael yn y clinig i gofnodi'r holl waith glanhau.</p> <p>Cofnodir y dyddiad, amser, lleoliad/ardal, y cynnyrch a ddefnyddiwyd ac enw'r glanhäwr, a</p>	<p>Rebekah Hennah</p>	<p>Ar waith ac yn mynd rhagddo</p>

amlder ac ati, a byddant yn cael eu llofnodi i ddangos eu bod wedi cael eu cwblhau.		chaiff y cofnod ei lofnodi. -- Cofnodir gwaith glanhau dyddiol a gwaith glanhau trylwyr misol.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig baratoi polisiau a gweithdrefnau a'u rhoi ar waith yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 9	Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau wedi cael eu diweddarau a'u gwirio ochr yn ochr â Legislation.gov.uk	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Rebekah Hennah

**Teitl swydd:** Perchennog/ Rheolwr

**Dyddiad:** 14.09.2023

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: La Belle Skin & Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 06 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'i fod ar gael yn hawdd i gleifion yn y clinig.	Rheoliad 7 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Wedi'i gwblhau - gall pob cleient gael copïau papur ac electronig. Diweddarau'r canllaw i gleifion ac e-bostio tystiolaeth i Huw.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried y ffordd orau y gellid diwallu anghenion cleifion a all fod am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Rheoliad 9(1)(g)	Dywedir wrth bob cleient nad wyf yn siarad Cymraeg pan fydd yn trefnu apwyntiad a gallaf gynnig Google Translate os oes angen.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gadw cofrestr yn cofnodi pob achos o ddarparu triniaethau IPL, sy'n benodol i'r peiriant, yn hytrach na bod hyn yn cael ei gofnodi ar wahân yn ffeiliau unigol cleifion.	Rheoliad 45(2)	Rwyf wedi llunio cofnod IPL ar wahân o gleifion sy'n cael ei llenwi bob tro y defnyddir IPL. Bydd gan bob cleient ffeiliau unigol o hyd.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddarparu canllawiau ôl-ofal ysgrifenedig i gleifion fel arfer safonol.	Rheoliad 15(1)(a)&(b)	Roedd pob cleient yn cymryd gwybodaeth ôl-ofal gyda nhw ac yn ei lofnodi ar ôl pob triniaeth gan gadarnhau eu bod wedi cael ôl-ofal, ac maent yn dal i wneud.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig bob amser ddarparu ffurflenni adborth dienw yn yr ystafell drin a/neu'r dderbynfa.	Rheoliad 19(2)(e)	Mae dau flwch adborth dienw ar gael, un yn yr ystafell drin ac un yn y dderbynfa.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith ar gyfer trefnu, cynnal a chofnodi ymarferion tân, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr y safle yn	Rheoliad 26(4)(d)	Rwyf wedi rhoi ymarferion tân ar waith a byddant yn cael eu cofnodi yn y llyfr diogelwch tân.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau



ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai tân.				
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau dyddiol ar y ddyfais IPL yn cael eu cofnodi a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Rheoliad 15(2)	Caiff gwiriadau dyddiol ar y ddyfais IPL eu cofnodi ac rwyf wedi darparu tystiolaeth o hyn i Huw.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig newid darn llaw'r ddyfais IPL a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Rheoliad 15(2)	Mae dyfais llaw newydd wedi cael ei brynu ac mae tystiolaeth wedi cael ei darparu.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n benodol i'r ddyfais IPL a ddefnyddir, a darparu tystiolaeth o hyn i AGIC.	Rheoliad 45(3)	Mae hyfforddiant gyda Lynton Lasers wedi cael ei gwblhau. Darparwyd tystiolaeth.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau
Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith ar gyfer sicrhau prosesau gwerthuso a gwella parhaus lle bo angen.	Rheoliad 19	Wedi'i gwblhau.	Rebekah Hennah	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Rebekah Henna**

**Swydd: Perchennog/ Rheolwr**

**Dyddiad: 26.10.2023**